# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Rhagfyr 2018

Amser: 14. - 16.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5025

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Suzy Davies AC<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Bil Deddfwriaeth (Cymru): Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol: Sesiwn dystiolaeth 1

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol. Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth am ei gynigion ar gyfer dehongli deddfwriaeth ddwyieithog. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol gyda rhagor o gwestiynau.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)287 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018

### 3.2 SL(5)290 – Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Addasiad Ynysoedd Scilly) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)285 – Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Llywodraeth am eglurhad pellach ar y pwyntiau a nodwyd yn ei adroddiad.

### 4.2 SL(5)288 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru a Lloegr) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(5)289 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE

### 5.1 SL(5)284 – Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad er mwyn tynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 5.2 SL(5)286 – Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad er mwyn tynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 6 Offerynnau Statudol sydd angen Cydsyniad: Ymadael â'r UE

### 6.1 SICM(5)8 – Rheoliadau Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a nododd nad yw Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu gosod cynnig ar gyfer dadl. Cododd Suzy Davies y posibilrwydd o gyflwyno cynnig er mwyn trafod y Memorandwm. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor, ddechrau mis Ionawr, adolygu'r Memoranda a Datganiadau Ysgrifenedig a osodwyd o dan Reol Sefydlog 30C a ystyriwyd hyd yma.

### 6.2 SICM(5)9 – Rheoliadau Llongau Masnach a Thrafnidiaeth Arall (Diogelu'r Amgylchedd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a nododd nad yw Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu gosod cynnig ar gyfer dadl.

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 7.1 WS-30C(5)31 - Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin a Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio Etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 7.2 WS-30C(5)32 - Rheoliadau Sefydliadau Ewropeaidd a Gwarchodaeth Gonsylaidd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 7.3 WS-30C(5)33 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 7.4 WS-30C(5)34 - Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Rheoliadau Domestig) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch y pwyntiau a nodwyd gan gyfreithwyr y Cynulliad mewn perthynas â'r datganiad ysgrifenedig.

### 7.5 WS-30C(5)35 - Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Amrywiol a Dirymu Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir) (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch y pwyntiau a nodwyd gan gyfreithwyr y Cynulliad mewn perthynas â'r datganiad ysgrifenedig.

### 7.6 WS-30C(5)36 - Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (Diwygiad) (Ymadael i'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 7.7 WS-30C(5)37 - Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE) 2018

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

**7.8 WS-30C(5)38 - Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio Gweddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

**7.9 WS-30C(5)40 - Rheoliadau Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

**7.10 WS-30C(5)41 - Rheoliadau Protocol 1 i Gytundeb yr AEE (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

**7.11 WS-30C(5)42 - Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth. Croesawodd y Pwyllgor y dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r datganiad ysgrifenedig.

## 8 Papurau i'w nodi

**8.1 Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Cyflwyno a Chyhoeddi Adroddiad Terfynol Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig.

**8.2 Llythyr gan y Llywydd at y Prif Weinidog: rôl y Cynulliad a'i bwyllgorau wrth graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd at y Prif Weinidog.

**8.3 Gohebiaeth â'r Prif Weinidog: Offerynnau Statudol Cyfansawdd ac Offerynnau Statudol ar y Cyd**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda'r Prif Weinidog a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Gweithdrefnau i ymchwilio ymhellach i'r mater.

### 8.4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Reoliadau a wnaed o dan y Bil Masnach.

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

### 8.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Bil Amaethyddiaeth y DU

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

### 8.6 Llythyr gan y Llywydd: Diwygio'r Cynulliad

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Trafod y dystiolaeth: Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Amaethyddiaeth y DU : Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno yn amodol ar rai mân gywiriadau.

## 12 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018: Diweddariad

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf.